Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

Mae Atodlen 11 Mesur Llywodraeth Cymru yn darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnig rheolau sefydlog a fydd yn berthnasol i drafodion y Cynulliad ar ôl etholiad 2007.

Pan fydd y Cynulliad wedi cytuno ar y cynigion, fe'u hanfonir at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a fydd yn gwneud y rheolau sefydlog newydd yn ffurfiol.

Felly, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu pwyllgor cynghorol o dan Reol Sefydlog 8.1 i argymell rheolau sefydlog ar gyfer y Cynulliad ar ei newydd wedd.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor yw:

1) Gwneud pob ymdrech i argymell rheolau sefydlog newydd a fydd yn sicrhau cymeradwyaeth mwyafrif o ddau draean yn y cyfarfod llawn;

2) Paratoi adroddiad a fydd yn amlinellu rheolau sefydlog newydd arfaethedig i'w hystyried yn y cyfarfod llawn.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar 31 Ionawr 2007 neu cyn hynny. Bydd y Pwyllgor yn dod i ben ar 1 Mawrth 2007.

I gael gwybodaeth am y Pwyllgor, gan gynnwys agendâu, papurau a chofnodion, defnyddiwch y cysylltiadau ar ochr chwith y ddalen hon.

Os hoffech ddod i gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad, gallwch archebu sedd ymlaen llaw drwy ffonio Llinell Archebu'r Cynulliad ar 029 2089 8477, neu drwy e-bostio archebu@cymru.gsi.gov.uk

Os hoffech gysylltu â'r Pwyllgor gallwch:

· anfon e-bost at sarah.beasley2@wales.gsi.gov.uk

· ysgrifennu at y Clercod, Siân Wilkins neu Gareth Williams, yn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

· ffonio'r Clercod ar (029) 2089 8224 / 8008